



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Trawsblaniad Microbia Ysgarthol Taflen Wybodaeth i Gleifion

Beth yw Clostridioides difficile?

Mae Clostridioides difficile (C. diff) yn facteria sy'n byw yn y coluddyn (a elwir hefyd y perfedd). Mewn unigolyn iach, gall bacteria C. diff fyw ymhlith bacteria normal yn y perfedd ac ni fyddant yn achosi afiechyd. Fodd bynnag, os bydd y bacteria arferol yn lleihau, e.e. oherwydd defnyddio gwrthfotigau i drin heintiau eraill, yna gall y C. diff gynyddu, gan achosi afiechyd.

Beth yw symptomau haint Clostridioides difficile?

Mae C. diff yn achosi dolur rhydd, twymyn, diffyg archwaeth am fwyd, cyfog a phoen yn yr abdomen. Gall hefyd achosi llid yn y coluddyn sy'n bygwth bywyd; fodd bynnag, mae hwn yn gymhlethdod anghyffredin.

Trin clefyd Clostridioides difficile drwy ddefnyddio gwrthfotigau

Mae triniaeth gyda'r gwrthfotigau fel vancomycin yn lladd y bacteria C. diff yn y rhan fwyaf o bobl. Fodd bynnag, mewn rhai pobl mae dolur rhydd yn dychwelyd ychydig ddyddiau ar ôl cwblhau cymryd gwrthfotigau, gelwir hyn yn aiddigwyddiad. Gall hyn ddigwydd pan na fydd bacteria arferol y perfedd yn dychwelyd i lefelau iach, gan ganiatáu i unrhyw facteria C. diff sydd ar ôl gynyddu mewn niferoedd ac achosi symptomau unwaith eto. Mae cleifion sydd yn profi un digwyddiad pellach mewn mwy o berygl o ddiodef haint eto maes o law.

Trin Clostridioides difficile gan ddefnyddio Trawsblaniad Microbia Ysgarthol

Mae Trawsblaniad Microbia Ysgarthol yn gyfrwng daliant o ysgarthion rhoddedig sydd wedi'i hidlo a'i baratoi yn y labordy ym Mhrifysgol Birmingham. Mae cyfansoddiad arferol fflora'r perfedd yn yr ysgarthion rhoddedig yma yn ailgyflwyno'r fflora sydd ar goll ym mherfedd y claf. Mae hyn yn arwain at nifer o fecanweithiau sy'n atal twf C. diff a datblygiad afiechydon. Gan nad yw C.diff yn gallu tyfu, ni all achosi symptomau haint ac mae'r dolur rhydd yn dod i ben. Mae hon yn driniaeth newydd ar gyfer C.diff.

Mae symptomau haint C. diff yn cael eu hatal mewn tua 91% o gleifion sy'n cael y driniaeth, o'i gymharu â dim ond 30-40% o gleifion sy'n derbyn triniaeth wrthfotig. Mae cleifion fel arfer yn gweld gwelliant yn eu dolur rhydd o fewn 24-72 awr ar ôl y

driniaeth. Mae'n bosibl y profir gwynt, torri gwynt a rhwymedd yn y dyddiau ar ôl derbyn Trawsblaniad Microbia Ysgarthol.

Beth yn union yw'r driniaeth?

Mae rhoddwyr ysgarthion yn oedolion dienw, iach, rhwng 18 a 50 oed. Nid ydynt wedi cymryd gwrthfotigau yn ystod y 3 mis diwethaf ac nid ydynt wedi profi unrhyw newidiadau diweddar yn arferion y coluddyn. Cânt eu sgrinio am heintiau'r perfedd ac am heintiau y gellir eu trosglwyddo gan hylifau corfforol (gwaed fel arfer), gan gynnwys Hepatitis A, B, C, E, HIV a Syffilis. Mewn ymateb i bandemig COVID-19 mae pob rhoddwr ysgarthion bellach yn cael ei sgrinio am y firws SARS-Cov-", yn ogystal â'u carthion rhoddedig a'r Microbia Ysgarthol a gynhyrchir o'u rhoddion.

Bydd y claf yn cael gwrthfotigau gwrth-C.diff (e.e. vancomycin) am o leiaf 4 diwrnod cyn y Trawsblaniad Microbia Ysgarthol, a bydd hyn yn dod i ben y noson cyn y driniaeth. Gellir rhoi Trawsblaniad Microbia Ysgarthol i glaf naill ai drwy diwb a fewnosodir drwy'r trwyn, i lawr y corn gwddf i'r stumog, a elwir yn diwb nasogastrig, neu drwy gamera endosgopig sy'n cael ei osod yn y coluddyn drwy'r rectwm (a elwir yn golonosgopi).

O'i roi trwy diwb nasogastrig bydd y claf yn derbyn tabled o omeprazole ar fore'r driniaeth i leihau'r asid yn y stumog, a allai ladd y bacteria a roddir yn y Trawsblaniad Microbia Ysgarthol. Rhoddir tabled Domperidone hefyd i wagio'r stumog i mewn i'r coluddyn bach. Rhoddir y tiwb nasogastrig yn y stumog ar fore'r driniaeth ac mae chwistrell sy'n cynnwys y Microbia Ysgarthol yn cael ei gysylltu â'r tiwb nasogastrig. Mae'r Trawsblaniad Microbia Ysgarthol yn cael ei roi drwy'r tiwb. Ni ddylai'r claf aroglu na blasu'r Microbia Ysgarthol. Yna caiff y tiwb nasogastrig ei fflysio â dŵr hallt a'i dynnu.

Pan fydd y driniaeth yn cael ei rhoi drwy golonosgopi, fe'i gwneir yn unol â pholisi'r ysbyty lleol. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu bod y claf yn cael hylif i'w yfed i baratoi'r coluddyn cyn y colonosgopi, er mwyn clirio'r coluddyn o ysgarthion. Yn ystod y driniaeth, gosodir y camera endosgop yn y coluddyn mawr drwy'r rectwm. Yna caiff y driniaeth ei chwistrellu i'r coluddyn trwy'r endosgopi.

Beth yw risgiau'r driniaeth?

Mae risg ddamcaniaethol o drosglwyddo pathogen o'r rhoddwr i'r derbynnydd. Mae rhoddwyr yn cael eu sgrinio am heintiau cyffredin sy'n cael eu lledaenu gan waed ac ysgarthion a'u hatal rhag rhoi os canfyddir unrhyw rai. Mae rhoddwyr yn cael asesiad risg clinigol, cymdeithasol a theithio trylwyr a dim ond os nad oes risgiau ychwanegol y caniateir iddynt roi. Fodd bynnag, efallai y bydd pathogenau nad ydynt wedi eu hadnabod yn y Trawsblaniad Microbia Ysgarthol a allai achosi haint yn y derbynnydd.

Hyd yma, mae Trawsblaniad Microbia Ysgarthol wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer trin haint C.Diff mewn llawer o astudiaethau ymchwil a threialon clinigol. Weithiau mae

Trawsblaniad Microbia Ysgarthol yn cael ei gysylltu â symptomau gastro-berfeddol canolog hunan-gyfyngol. Mae ein protocolau sgrinio yn llym iawn ac rydym yn gweithredu yn ôl rhybuddion diogelwch penodol ynghylch trosglwyddo rhai pathogenau gan awdurdodau rheoleiddio.

Os yw Trawsblaniad Microbia Ysgarthol yn cael ei roi trwy'r trwyn i'r stumog, mae risg fach iawn o drydylliad o osod y tiwb. Mae risg hefyd o gamleoli'r tiwb nasogastrig i mewn i'r ysgyfaint. Byddai danfon Microbia Ysgarthol i'r ysgyfaint yn achosi haint difrifol. Cymerir camau i sicrhau bod y tiwb yn cael ei osod yn gywir yn y stumog yn unol â chanllawiau eich ysbyty lleol, i leihau'r risg.

Os caiff Trawsblaniad Microbia Ysgarthol ei roi drwy golonosgopi, mae risgiau sydd yn gysylltiedig â'r weithred golonosgopig o wneud hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y risgiau o dderbyn tawelydd a'r risg fach o drydylliad y coluddyn. Mae'r risgiau o achosi niwed difrifol drwy golonosgopi yn fach iawn a bydd eich tîm meddygol lleol yn eu trafod gyda chi.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y driniaeth?

Mae hon yn driniaeth newydd ac felly mae'n bwysig deall a yw'r driniaeth yn gweithio. Yn ogystal ag unrhyw apwyntiad dilynol clinigol arferol a allai fod gennych, bydd eich meddyg yn llenwi holiadur Trawsblaniad Microbia Ysgarthol penodol am eich cynnydd, o fewn 7 diwrnod i'ch triniaeth ac yna ymhen 90 diwrnod ar ôl eich triniaeth. I gwblhau'r holiadur hwn bydd eich meddyg yn gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd ar ôl Trawsblaniad Microbia Ysgarthol, unrhyw sgîl-ffeithiau o'r driniaeth a pha mor fodlon oeddech chi â'r driniaeth hon. Bydd y data hwn yn cael ei gasglu gan eich meddyg a'i anfon i Ganolfan Triniaeth Microbiome Prifysgol Birmingham. Bydd data eich canlyniad yn ddienw yn yr holiadur hwn.

“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.